# y dinesydd

Rhagfyr/Ionawr 1997/98 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 233


# PRIFDDINAS AR BRAWF

Mae perthynas Caerdydd â gweddill y genedl yn destun trafod brwd unwaith eto yn sgîl yr helynt ynglŷn â chartref parhaol i'r Cynulliad. Mae llawer wedi synnu bod y Swyddfa Gymreig a'r Cyngor lleol wedi methu â chytuno ar delerau i sicrhau mai Neuadd y Ddinas fyddai cartref y Senedd newydd. Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol, Ron Davies, y bydd yn ystyried nifer o safleoedd eraill posibl - rhai yma yng Nghaerdydd ond eraill hefyd yn y Gogledd a'r Gorllewin. Mae hynny wedi ysgwyd peth ar gynghorwyr Llafur y ddinas yn enwedig gydag ymgais Abertawe i ddenu'r Cynulliad yno yn cael cryn gefnogaeth gan arweinwyr cynghorau Llafur eraill Cymru. Dyma arwydd clir bod yna deimlad, ymysg gwleidyddion lleol o leiaf, bod Caerdydd yn cael manteision di-rif o fod yn brifddinas heb iddi haeddu ei statws yn llawn - ei bod yn troi'r dŵr i'w melin ei hun yn rhy aml. Mae ymgais y Cyngor i wasgu mwy na'r £3.5 miliwn oedd yn cael ei gynnig o'r Swyddfa Gymreig am Neuadd y Ddinas wedi gadael blas drwg. Hynny yn bennaf oherwydd y manteision economaidd fyddai'n deillio eto i Gaerdydd o gael y Cynulliad yng nghanol y ddinas - a hynny ar ben yr holl arian loteri i gynlluniau mawr eraill fel y Stadiwm Genedlaethol newydd a Chanolfan y Mileniwm ym Mae Caerdydd. Neuadd y Ddinas yma yng Nghaerdydd ddylai fod yn gartref naturiol i Senedd gyntaf Cymru ers dyddiau Glyndŵr. Efallai y gwireddir hynny os nad y ganrif hon, yna wedi'r flwyddyn 2000 gan mai aelodau'r Cynulliad ei hun yn y pen draw fydd â'r gair olaf.



*Neuadd y Ddinas* Llun: Robin Griffith

## AELWYD NEWYDD I'R URDD

Cadarnhaodd yr Urdd eu bod yn bwriadu gwerthu'r Ganolfan yn Heol Conwy a chanoli eu hadnoddau yn y De-ddwyrain yng Nghanolfan y Mileniwm ym Mae Caerdydd. Bu'r Urdd yn rhan o'r consortiwm i ddatblygu'r Ganolfan yn y Bae o'r cychwyn ac mae'r cyhoeddiad diweddar bod y cais i sicrhau £35miliwn o arian loteri wedi bod yn llwyddiannus yn hwb aruthrol i'r cynllun. Bydd theatr fawreddog yno yn ogystal â chanolfan breswyl i'r Urdd gyda lle i 100 o bobl ifainc. Yma y bydd cartref newydd y Cwmni Opera ond pwysleisir y bydd yn ganolfan boblogaidd ac y bydd yr Urdd er enghraifft yn gallu manteisio ar y cyfleusterau i drefnu eu cyflwyniadau theatrig eu hunain.

Bu'r Ganolfan yn Heol Conwy yn fwrlwm o weithgareddau Cymraeg dros y blynyddoedd ac yn fan cyfarfod i ieuenctid o bob rhan o Gymru fu'n tyrru i'r brifddinas. Mae gweithgareddau'r Urdd wedi hen ledu y tu hwnt i'r Ganolfan gyda'r mudiad yn llogi canolfannau hamdden ac yn trefnu teithiau yn ystod gwyliau'r ysgol er mwyn darparu cyfleoedd a phrofiadau amrywiol i blant a phobl ifainc y ddinas drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dyma'r cyfle efallai gyda diflaniad y Ganolfan yn Heol Conwy i'r ysgolion Cymraeg niferus yn y ddinas ddatblygu ymhellach fel canolfannau cymunedol lleol i ni'r Cymry Cymraeg a'r dysgwyr, gyda'r Ganolfan newydd yn y Bae yn ganolbwynt i'r gweithgareddau yma ymhlith ieuenctid y ddinas a gweddill Cymru.

* * *



## Losin i Romania

Bu plant Ysgol Glantaf wrthi'n ddiweddar yn casglu losin i'w hanfon i Romania. Ers rhai blynyddoedd mae rhai Cristnogion yng Nghaerdydd, o dan arweiniad Mr Alun Penrose o Riwbina, wedi bod yn mynd yn rheolaidd â nwyddau i Romania. Adeg y Nadolig maen nhw'n meddwl yn arbennig am y plant, ac yn ogystal â'r holl bethau eraill, maen nhw'n mynd â pharseli bach o losin i'r eglwysi ac i blant sy'n byw ar y strydoedd. Efallai mai dyma'r unig anrheg y bydd rhai o'r plant yma yn ei chael. Cafwyd ymateb da iawn gan blant Glantaf ac yn y llun gwelir rhai ohonynt a fu'n pacio'r parseli bach.

# Y Dinesydd

**Rhag./Ion. 1997/98, Rhif 233. ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Chwefror at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 17 Ionawr:**

**Newyddion y Fro:** Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 708253).
**Newyddion o'r Eglwysi:** Y Parchedig Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 626811).
**Newyddion Ysgolion Cynradd:** Mr B. D. Harries, 6 Lakeside, Caerdydd (Ffôn: 756562).
**Newyddion Ysgol Glantaf:** Mrs S. E. Williams, 23 Kelvin Road, Y Rhath, Caerdydd (Ffôn:490687).
**Newyddion Chwaraeon:** Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 564540).
**Gweithgareddau Dysgwyr:** Mr Gareth Kiff, Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Caerdydd (Ffôn: 486469/755475):
**Newyddion Cyffredinol:** Mr W. J. Jones, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (Ffôn: 756282; Ffacs: 758106).

**Anfonwch unrhyw ymholiadau golygyddol at:**
Mrs Linda Thomas, 3 Llwynfedw Gardens, Llwynbedw, Caerdydd (Ffôn: 693302).

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 842929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:

Miss Catrin Rowlands, 42 Carling Court, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 4PH (Ffôn: 01222 598243).

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE (Ffôn: 521325) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ..................................................................

.............................................. Côd Post: ...................

Rhif Ffôn: ...................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ..................................................................


.............................................. Côd Post: ...................

Rhif Ffôn: ...................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 7JE.

## CROESAIR AP LEWSYN

**Rhif 165** **Rhag./Ion. 1997/98**



Rhywbeth gwahanol dros yr Ŵyl! Wele restr o'r geiriau, neu'r ymadroddion sy'n ffitio'r patrwm, ambell un â blas y Nadolig arno. Y dasg y tro hwn yw gosod pob un yn ei le. Awgrymir mai da o beth fyddai arbrofi yn gyntaf ar bapur ysgwarog. Pob cynnig i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd, erbyn 17 Ionawr, os gwelwch yn dda.

Gŵyl y Geni: Antur: Tipyn mwy: Preseb: Gobeithlu: Rhif pump: Corniog: Ci: Cân actol: Rhoddion: Gorthrymu: Celyn: Cil y llygad: Pwdin: Clwyfo: Igam-ogam: Yn dysgu: Anrhegion: Bugeiliol: Cilagored: Plagiwyd: Oddi wrthym: Tant: Plygain: Cerdyn: Amgau.

**Cystadleuaeth Rhif 164**

Daeth 14 ateb i law, a 12 ohonynt yn gywir. Yr ymgais a dynnwyd o'r het oedd eiddo Mrs Buddug Roberts, 14 Coryton Crescent, Yr Eglwys Newydd, ac mae'r tocyn llyfrau ar ei ffordd iddi. Daeth atebion cywir hefyd oddi wrth Margaret Jones, Rhiwbina; Michael Francis, Casnewydd; Maurin Hurley, Llandaf; Heledd Hall, Treganna; Nia Williams, Creigiau; Huana Simpson, Y Bont-faen; Gwenda Hopkins, Llanisien; Marged Davies, Llandaf; E Haydn Jones, Rhiwbina; Carys Humphreys, Bangor a James Wiegold, Rhiwbina.

---

Cynhelir cyfarfod cyhoeddus dan nawdd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Narlithfa Coleg y Llyfrgellwyr, Llanbadarn, Aberystwyth, ddydd Sadwrn, 17 Ionawr 1998, am 11.00 o'r gloch i drafod strategaeth genedlaethol ar gyfer hyrwyddo y ddrama amatur Gymraeg a meithrin ysgrifenwyr ar ei chyfer. Am fanylion pellach, cysylltwch â George Owen, Swyddog Drama'r Eisteddfod (Ffôn: 01222-763777).

Mae cwmni Al Fresco yn chwilio am unigolion a grwpiau â thalent canu a pherfformio i gymryd rhan ym mhedwaredd gyfres 'Codi'r To', sydd i'w recordio yng Ngorffennaf 1998. Cynhelir gwrandawiadau yng Nghaerdydd yn ystod mis Chwefror. Am fanylion pellach, cysylltwch â Meinir Mai Jones, Al Fresco, 33-34 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF1 9HB (01222-726726).

---

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Chyngor y Celfyddydau i'r cyhoeddiad hwn.

## Cylch Cinio Y Barri

Gŵr gwadd Cylch Cinio Cymraeg y Barri ddiwedd mis Hydref oedd y Parchedig Maxwell Evans. Mae Max yn un o aelodau ffyddlonaf y cylch ac mae wedi cyfrannu'n helaeth at ei lwyddiant dros y blynyddoedd. Y tro yma cafodd yr aelodau gyfle i wrando arno'n ein hannerch ar 'Bererindod'.

Pererindod trwy Gymru oedd hon ac fe'i trefnwyd gan y diweddar Elvet Thomas ddechrau'r ail ryfel byd. Cynlluniwyd baner ar gyfer y daith ac fe'i cariwyd yn enw'r Urdd a Chymru. Soniodd Max am holl gymalau'r daith a'r croeso a dderbyniodd y pererinion ar aelwydydd caredig. Yn Nhyddewi cysegrwyd y faner cyn parhau'r daith. Yn ddiweddar cafodd Max a nifer o'i gyfeillion gyfle i ddychwelyd (nid ar draed) i Dyddewi i gyflwyno'r faner i ofal parhaol y gadeirlan.

## Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina

Daeth dros hanner cant o aelodau Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina ynghyd ddechrau Tachwedd i wrando ar Mrs Ray Phillips, Rhiwbina, cyn-Arglwydd Faeres Caerdydd, yn adrodd peth o hanes ei blwyddyn yn y swydd.

## Jambalaya a Jazz

Cynhaliwyd Noson Jazz yn y Lee Hall, Dinas Powys yn ddiweddar. Pwrpas y noson oedd codi arian ar gyfer 'Holme Tower' - cartref Marie Curie ym Mhenarth. Bu Pwyllgor Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys wrthi'n ddyfal yn paratoi pryd blasus o Jambalaya a Salad Cymysg a Melon y Mississippi i ddilyn. Yna cafwyd arlwy gwbl broffesiynol o Jazz traddodiadol gan Sian Williams ac Owain Evans. Addurnwyd y neuadd yn chwaethus ar gyfer y noson gan Gerwyn Williams, Ysgrifennydd y Gymdeithas, a'i wraig Angela gyda chymorth parod Mari Evans. Trefnwyd y noson gan Elinor Elias Jones a hithau hefyd a gymerodd at yr awenau gyda chymorth aelodau'r Pwyllgor.

Derbyniodd y Gymdeithas rodd o £150 gan Tesco, lle prynwyd y bwydydd a'r ddiod. Noson hyfryd a rhywbeth at ddant pawb - ac fel coron i ymdrechion Alun Roberts y Trysorydd a phob aelod o'r Pwyllgor, codwyd £450 i'w drosglwyddo i Holme Tower.

Ar ôl deng mlynedd o weithio dyfal, daeth tymor Mrs Moyra Owen i ben fel ysgrifennydd Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys. Cyflwynwyd rhodd iddi yn arwydd o ddiolch y Gymdeithas am ei holl lafur. Anodd yw meddwl am gyfarfodydd y Gymdeithas heb Moyra a'i bys ar y botwm!

## Llongyfarchiadau

- I Rhodri Jones ar gael ei ddewis i chwarae pêl-droed dros Ysgolion Cymru yn y tîm dan 15 oed, yn y gem ryngwladol yn erbyn Gweriniaeth Iwerddon.
- I Tanwen Summers ar ennill tlws am ddod yn ail ym Mhrydain mewn cystadleuaeth 'Tae Kwondo'.
- I Siân Elin ac Andy Dixon ar enedigaeth Angharad Haf, wyres i Islwyn a Myfanwy Jenkins, Rhiwbina a Joe a Joyce Dixon, Basingstoke.
- I Elen, merch hynaf Peter ac Elinor Elias Jones, Dinas Powys ar ei dyweddïad â Hywel, mab hynaf John a Gwyneth Gwynne Williams, Pen-tyrch.

## Cydymdeimlo

- Cydymdeimlir â Nerys Roberts, Pen-y-lan a gollodd ei mam yn ddiweddar.
- Cydymdeimlir â Nest Mansel Jones ar farwolaeth ei mam, Eira Mair Mansel Jones, Maindy Rd., ar 13 Tachwedd yn 89 oed.

## Calendr y Dinesydd

**Gwener, 9 Ionawr**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: 'Adar yr Ardd.' Sgwrs gan y Parch, Ieuan Davies, yn neuadd Eglwys Bethel, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m.

**Sadwrn, 10 Ionawr**
Dawnswyr y Twrch Trwyth: Gŵyl Hen Galan, yn Neuadd Eglwys Gatholig San Pedr, oddi ar Heol y Plwca (*City Road*), rhwng 8 a 12 p.m.

**Mercher, 14 Ionawr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan John Walter Jones, yn neuadd Eglwys Minny Street, am 2.00 p.m.

**Iau, 15 Ionawr**
Cylch Cinio Merched Caerdydd, yng ngwesty'r Phoenix, Llanisien, am 7.00pm ar gyfer 7.30: Eirlys Davies (Penarth), 'Doliau Anarferol'.

**Gwener, 16 Ionawr**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Delweddau o Gymru ar Gardiau Post Cynnar' gan Dr E. G. Millward, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Prifysgol Cymru Caerdydd, am 7.00 p.m.

**Llun, 19 Ionawr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Sgwrs gan yr Athro J. Gwynfor Jones ar 'Caerdydd a'r Diwylliant Cymraeg (1890-1939)', yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.

**Llun, 19 Ionawr**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Hybu Iechyd Cymru' gan Dr Claire Paisley o Asiantaeth Hybu Iechyd Cymru, yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Cymru Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 20 Ionawr**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Sgwrs gan Gwyn Griffiths am y Sioni Winws, yn neuadd Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, King Square, am 7.15 p.m.

**Mercher, 21 Ionawr**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Sgwrs am 'Gristnogion yn Erbyn Poenydio' gan Moelwyn Preece, yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, am 8.00 p.m.

**Llun, 26 Ionawr**
Cell Cymdeithas y Cymod: 'Cymorth a Chymod' gan Elenid Jones, yng Nghanolfan Cymorth Cristnogol, 27 Heol yr Eglwys, Yr Eglwys Newydd am 10.00 a.m.

**Mercher, 28 Ionawr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Dewi Lewis, yn neuadd Eglwys Minny Street, am 2.00 p.m.

**Llun, 2 Chwefror**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Sgwrs gan E. O. Edwards ar 'Gamlas Morgannwg', yn neuadd Eglwys Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.

**Gwener, 6 Chwefror**
Cymrodorion Caerdydd: 'Idwal Jones, Llambed' gan Tegwyn Jones, yn neuadd Eglwys Minny Street am 7.15 p.m.

**Llun, 9 Chwefror**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Noson yng nghwmni Mrs Rae Phillips (cyn-Faeres Dinas Caerdydd) yn neuadd Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.

**Mercher, 11 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Beryl Hall, yn neuadd Eglwys Minny Street, am 2.00 p.m.

**Gwener, 13 Chwefror**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: 'Y Glowr.' Sgwrs gan y Parch. Gareth H. Davies, yn neuadd Eglwys Bethel, Heol Pen-llin, am 7.30 p.m.

**Llun, 16 Chwefror**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: 'Techniquest', yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Cymru Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 17 Chwefror**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Seiat Holi, yn neuadd Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri, King Square, am 7.15 p.m. Aelodau'r panel: Huw Ethall, Alun Daniel, Beti-Wyn James.

**Mercher, 18 Chwefror**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Sgwrs am 'Gymeriadau' gan John Albert Evans, yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, am 8.00 p.m.

**Gwener, 20 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Egwyl ym Mro Ogwr' gan Eirian E. Edwards, yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Prifysgol Cymru Caerdydd, am 7.00 p.m.

**Mercher, 25 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Dathlu Gŵyl Ddewi, yn neuadd Eglwys Minny Street, am 2.00 p.m. Gwestai: Yr Esgob Cledan Mears.

**Gwener, 27 Chwefror**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Cinio Gŵyl Ddewi yng ngwesty Mount Sorrel, 7.30 p.m. ar gyfer 8.00 p.m. Gwestai: Parch. Haydn Thomas.

**Gwener, 27 Chwefror**
Cymrodorion Caerdydd: Cinio Gŵyl Ddewi yn Neuadd Aberdâr.

*Os ydych am gynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF4 2AJ.*

## Cofio am Cliff Bere

Cyfrannodd teulu a chyfeillion y diweddar Cliff Bere y Barri, £375 i Fudiad Ysgolion Meithrin er cof amdano. Flynyddoedd yn ôl bu Cliff Bere yn flaenllaw yn y Mudiad Gweriniaethol Cymreig ac ysgrifennodd lyfr yn gymharol ddiweddar yn adrodd hanes y mudiad hwnnw, sef *The Welsh Republican.*

## Ymwelydd o Batagonia

Gwyddonydd yw Joyce Owen de Hughes o Rawson yn Nyffryn Conwy a dreuliodd fis yma yng Nghaerdydd yn ddiweddar gyda staff Asiantaeth yr Amgylchedd. Enillodd Joyce ysgoloriaeth blwyddyn wedi ei threfnu gan y Swyddfa Gymreig a Llywodraeth yr Ariannin, i gwblhau cwrs MSc mewn Rheoli Llygredd ym Mhrifysgol Leeds. Ond cyn dychwelyd i Batagonia roedd am weld sut mae'r amgylchedd yn cael ei warchod yma yng Nghymru. Cafodd grwydro rhwng De a Gogledd i weld safleoedd diwydiannol a thomenni sbwriel, a chyfarfu â nifer o hen gyfeillion, gan brofi nad dim ond cysylltiadau diwylliannol sydd rhwng Cymru a'r Wladfa!



Joyce Owen de Hughes ac Alun James, Uwch-Swyddog Rheoli Llygredd yr Asiantaeth.

## Patagonia a Chaerdydd

Cynhaliwyd Ysgol Undydd ar y testun 'Patagonia Ddoe, Heddiw ac Yfory', dan nawdd Adran Addysg Barhaol Prifysgol Cymru Caerdydd, ar 15 Tachwedd, pan ddaeth dros ugain ynghyd i wrando ar Dr Robert Owen Jones yn cyflwyno hanes y Wladfa.

Cyfarwyddwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion yn 42 Park Place yw Dr Robert Owen Jones, canolfan sy'n rhan o Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Caerdydd. Mae Dr Jones yn arbenigwr ar hanes y Gymraeg yn y Wladfa, ac y mae ganddo ran allweddol yn y cynllun a noddir gan y Swyddfa Gymreig, y Cyngor Prydeinig a Sefydliad Thomson i hybu dysgu Cymraeg yno.

Ddiwedd Tachwedd dychwelodd wyth o Wladfawyr i Batagonia wedi treulio tua deufis yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion, yn cael eu hyfforddi i fod yn diwtoriaid Cymraeg yn ôl yn y Wladfa. Buont yn aros mewn cartrefi Cymraeg yn y ddinas, ac y maent am ddiolch yn fawr i bawb am y croeso cynnes a gafwyd yng Nghaerdydd.

Y mae Shân Emlyn, cyn-olygydd *Y Dinesydd*, wedi bod yn ddolen gyswllt hynod bwysig rhwng Cymru a Phatagonia dros y blynyddoedd. Drwg gennym ddeall nad yw wedi bod yn dda yn ddiweddar, ac wedi gorfod treulio cyfnodau yn yr ysbyty. Dymunwn adferiad iechyd buan iddi.

## Aelod Seneddol a'i Frws Paent

Ymunodd Gweinidog y Swyddfa Gartref, Alun Michael (Aelod Seneddol dros Dde Caerdydd a Phenarth) â gwirfoddolwyr ar draws Caerdydd i gymryd rhan yn niwrnod gwirfoddoli mwyaf Prydain, Diwrnod Gwneud Gwahaniaeth Yellow Pages. Cynhaliwyd y gweithgareddau ddydd Sadwrn, 1 Tachwedd, a chafodd y diwrnod ei gydlynu gan CSV (*Community Service Volunteers*).

Bu Alun Michael yn cydweithio â phobl leol o Gaerdydd, CSV Cymru a Chanolfan Huggard CASH i addurno'r Ganolfan. Mae'r Ganolfan yn un o brif ganolfannau dydd ag adnoddau i bobl ifainc sengl digartref Caerdydd ac roedd angen ei hailaddurno yn fawr.




Digwyddiad arall a drefnwyd ar Ddiwrnod Gwneud Gwahaniaeth gan wirfoddolwyr yng Nghaerdydd oedd creu llwybr bywyd gwyllt yn mynd o'r brif glwyd at fynedfa Fferm Dinas Caerdydd.

## Cofio am D Owen Jones

Ym marwolaeth D Owen Jones yn ddiweddar, yn 94 oed, mi gollwyd un a fu'n weithgar ym myd addysg trwy gydol ei oes faith. Brodor o Bontarddulais oedd, a bu'n ymwybodol o'i wreiddiau hyd ddiwedd ei oes. Fe ddechreuodd D.O., fel yr adnabyddid ef gan ei ffrindiau, ei yrfa addysgol ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth lle'r enillodd radd dosbarth cyntaf mewn Ffiseg. Gyda'i feddwl ymchwilgar a'i ddiwylliant eang, roedd yn athro wrth reddf.

Bu'n dysgu mewn ysgol yn Lloegr cyn dod yn ôl i Gymru i fod ar staff Ysgol Ramadeg Abertawe. Un o'i ddisgyblion yno oedd crwt ifanc a oedd yn ddiweddarach i ddod yn fardd bydenwog, sef Dylan Thomas. Doedd gan y ddau ddim llawer i'w ddweud wrth ei gilydd o safbwynt addysgol. 'I'm glad to say good-bye to a wretched subject!' oedd sylw Dylan wrth ddychwelyd ei lyfrau un diwedd tymor. 'And I'm glad to say good-bye to a wretched pupil!' oedd ymateb D.O. Ond roedd yna gyfeillgarwch dwfn rhyngddo a thad Dylan, yr athro Saesneg, a oedd yn gydweithiwr iddo. Cyn ei bod yn ffasiynol i berchen car, mi fyddai'r ddau'n cydgerdded i'r ysgol ac yn mwynhau paned o de yn y tŷ yn Cwmdonkin Drive ar ddiwedd y pnawn. A byddai D.O., fel y byddai gweddill staff yr ysgol, yn prynu rhai o gyhoeddiadau Dylan, o barch i'w dad, er mwyn ceisio helpu tipyn arno'n ariannol. Ychydig a wyddent yr adeg honno y byddai enwogion fel Edith Sitwell a Henry Treece yn dod i'r adwy'n ddiweddarach.

Ym 1938 ymunodd D.O. â'r Central Welsh Board a bu'n arolygydd ar yr hen ysgolion gramadeg (y Cownti Sgŵls) ar ran y Bwrdd am ddegawd cyn i'r weinyddiaeth addysg ei gymryd drosoddd. Ar ôl hyn, addysg dechnegol oedd maes D.O. gan ddefnyddio'r gair 'technegol' mewn ystyr eang, gan gynnwys, ymhlith eraill, golegau amaethyddol a cholegau technoleg paratoi bwyd.

Roedd gan D.O. stôr o hanesion ac roedd yn hoff o adrodd am hen ewythr iddo a roddodd lifft, yn ei gambo, i hen drempyn a welodd ar yr hewl ym Mhontarddulais, gan roi joien o faco iddo yn ystod y daith. Ar ôl cael ei adael i lawr dyma'r trempyn diolchgar yn edrych i fyny ar yr amaethwr parchus. 'Os byth y cewch chi'ch hunan yn jael Caerfyrddin,' meddai, 'dewiswch y felin-droed ar y dde; mae hi'n rhwyddach i'w gweithio na'r lleill.'

Roedd nifer y bobl a ddaeth i dalu'r gymwysnas olaf i'r gŵr bonheddig hwn yng nghapel Parkend, capel lle y bu'n aelod ffyddlon a blaengar, yn dyst i'r parch a enynnodd ym mhawb a'i hadwaenai. Bydd aelwydydd Helen, ei ferch, a'i fab, Stuart, Ceidwad yr Amgueddfa Diwydiant a Môr, yn dlotach o'i golli.

**Ray Evans**

## Bro Eirwg yn Codi Arian at Dri Achos Da yn Ystod y Tri Mis Diwethaf

Rhannwyd Casgliad y Cynhaeaf (£320) yn Ysgol Bro Eirwg rhwng 'Tŷ Croeso', Ysbyty'r Brifysgol yng Nghaerdydd a hyrwyddo addysg Mamta - y ferch fach o'r India sydd yn cael ei haddysg wedi ei noddi yn flynyddol gan blant Bro Eirwg er cof am Jamie Laugharne. Hefyd codwyd £214.57 tuag at Ddiwrnod Plant mewn Angen - roedd y plant yn cael eu cosbi'n ariannol am ddod i'r ysgol mewn gwisg NAD oedd yn wisg ysgol!

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## Cwis Blynyddol

Ddechrau Tachwedd cynhaliwyd cwis blynyddol cell Caerdydd o Gristnogion yn Erbyn Poenydio yng nghapel Minny Street. Bu chwe thîm o'r gwahanol addoldai Cymraeg yn y ddinas yno ac am yr ail flwyddyn yn olynol tîm Eglwys Dewi Sant a orfu. Aelodau'r tîm yw: Grahame Davies, Andrea Miller, Ian Miller a Jane Ross. Diolch yn fawr i John Morgan am drefnu'r cwis eto.

## Newyddion y Crwys - Eglwys ar Daith

Ers rhai blynyddoedd bellach mae Cymdeithas Ddrama'r Crwys wedi trefnu nifer o deithiau llwyddiannus i wahanol rannau o Ewrop. Mr Aled Evans yw pensaer y teithiau hyn, ac ef fu'n gyfrifol am drefnu'r daith ddiweddara eleni pan ymwelwyd â Norwich a Chaer-grawnt. Cafwyd cwmni nifer o gyfeillion o eglwysi eraill ar y daith a chludwyd pawb yn ddidramgwydd gan gwmni Seren Arian Caernarfon. Ymwelwyd â nifer o fannau diddorol megis cadeirlannau Ely a Norwich a cholegau Emmanuel, y Brenin a'r Iesu yng Nghaer-grawnt. Ymwelwyd hefyd â King's Lynn a Newmarket.

## Newyddion Eglwys Dewi Sant

Talwyd ymweliad ag Eglwys Dewi Sant gan Eglwys Sant Ioan Ettlingen, Baden Wurtenburg y penwythnos olaf ym mis Hydref. Dechreuodd y berthynas ddeng mlynedd yn ôl ac mae'r cyfeillgarwch yn mynd o nerth i nerth.

Bore Sul cafwyd gwasanaeth teirieithog gyda Dr Pitzer o Ettlingen yn pregethu. Ar ôl yr hwyrol weddi cafwyd cyngerdd gan fand pres Eglwys Ettlingen. Ar y dydd Llun dilynol aethpwyd ar daith o amgylch De Cymru ac yn yr hwyr talwyd ymweliad â'r castell cyn eistedd am bryd o fwyd a noson lawen. Ar y bore dydd Mawrth aethom gyda'n gilydd i'r Eglwys Gadeiriol i gael cymun Cymraeg, a'r Parchedig Aled Edwards yn gweinyddu, yn cael ei ddilyn gan berfformiad gan y band pres o'r Almaen. Wedi prynhawn o siopa cafwyd gwledd yn Neuadd yr Eglwys, y cyfan wedi'i ddarparu gan y gwragedd. Edrychwn ymlaen yn awr at fynd yn ôl i Ettlingen ymhen dwy flynedd.

**Falmai Griffiths**

## Bethel, Rhiwbina

Ddechrau Tachwedd cafwyd noson fendithiol ym Methel yng nghwmni Mrs Gwenda Watson, gwraig a fagwyd ar Ynys Enlli ac a fu yn y maes cenhadol am flynyddoedd lawer. Bu'n sôn yn bennaf am y cyfnod y bu hi a'i gŵr yn genhadon yn Panama.

Cafodd Menna a Nia, merched Delyth a Jeff Davies, Lôn y Rhyd, Rhiwbina, eu bedyddio gan y gweinidog y Parch. D. Haydn Thomas, fore Sul, 26 Hydref. Yn ystod y gwasanaeth croesawyd Delyth a Jeff yn aelodau o'r eglwys, yn ogystal â Huw Meredydd Thomas, Llanisien. Croeso iddyn nhw i gyd i deulu Bethel. A chroeso hefyd i Sioned Heulyn, merch fach Tamsin a Chris Llwyd Graves, Elm Street, Y Rhath, a gafodd ei geni, 8 Tachwedd. Mae Sioned yn chwaer i Carwyn a Dyfan.

## Y Tabernacl

Daeth cynulleidfa niferus yn cynnwys nifer o ymwelwyr ynghyd ar fore Sul, 16 Tachwedd, i dystio i'r ordinhad o fedydd gyda'r Parchg. Denzil John yn bedyddio dau berson sef ei ferch Luned John a Steffan Simpson.

Ar y nos Fawrth flaenorol talodd Cymdeithas Nos Fawrth Tabernacl ymweliad ag Eglwys Tonyfelin, Caerffili. Llywyddwyd rhaglen amrywiol Tabernacl yn hwylus ac yn llawn hiwmor gan Mr Illtyd Lloyd.

## Minny Street

Trist gorfod cofnodi marwolaeth dwy o'n haelodau ddiwedd mis Hydref - Mrs Betty Griffiths a Mrs Annie Guy. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'r teuluoedd.

Myfyrwyr a staff Adran Gymraeg y Brifysgol, oedd yn difyrru'r 'Gymdeithas' nos Fawrth, 4 Tachwedd. Cafwyd noson i'w chofio. Cyflwynwyd yr eitemau gan Dr Sioned Davies. Croesawyd nifer o ymwelwyr o Batagonia i'r noson a chanwyd dwy alaw werin yn swynol dros ben gan un ohonynt, sef Carey Jones o'r Gaiman.

Bu nifer o'r plant yn cymryd rhan yn yr oedfa fore Sul cyntaf mis Tachwedd, gydag anerchiad gafaelgar Alun Treharne ar 'Bwysigrwydd cofio, dweud a gweithredu diolch' yn arwain, ar fyr rybudd, at lond cist car o focsiau 'sgydiau yn llawn anrhegion ar gyfer 'Operation Christmas Child' (trefniant Andrew Tamplin). Wythnos yn ddiweddarach, buom yn dathlu ein hefeillio ag Eglwys y Tranovato ym Madagascar ac yna, yn yr hwyr, bu deunaw o ieuenctid, gan gynnwys cerddorfa fechan, yn arwain gwasanaeth ar y thema 'Heddwch'.

Llongyfarchiadau i Einion a Jên Dafydd ym Mangor ar eni mab, Wesyn (ŵyr i Eirwen a Tom Davies, Llandaf) ac i Nia a Rhys Evans yng Nghaerleon ar enedigaeth Ifor Wyn (ŵyr i Ann a John Rees, Parc y Rhath).

## Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd

Noson hwyliog a diddorol a gafwyd yng nghapel Bethel nos Iau, 13 Tachwedd, pan ddaeth naw o bobl ifainc o wahanol gapeli Cymraeg y ddinas i roi eu barn ar nifer o bynciau amrywiol yn ymwneud â bywyd eu capeli a'r ffydd Cristnogol heddiw. Bu eu hymateb yn arbennig o onest a didwyll a hynny o dan arweiniad medrus a bywiog y Parchedig Denzil John. Y capeli a gynrychiolid gan y panel oedd: Capel y Crwys, Ebeneser, Gwaelod-y-garth, Minny Street, Salem a'r Tabernacl.

Ar y cyfan yr oedd y panel yn weddol fodlon ar drefn bresennol eu gwahanol eglwysi ond pwysleisiwyd gan fwy nag un ohonynt y dylid bod yn barod i newid pethau yn ôl y galw er mwyn symud gyda'r oes. Ychydig o ddiddordeb oedd ganddynt mewn enwadaeth ac ymlyniad pobl wrth frics a morter. Yn hytrach na sôn am bwysigrwydd 'capel' gwell oedd ganddynt feddwl yn nhermau'r eglwys neu'r ffydd Gristnogol. Mynegodd mwy nag un ohonynt fod angen dyfnhau ein dealltwriaeth o'n crefydd a bod yr hyn a ddysgid yng ngwasanaethau'r Sul yn berthnasol iawn weddill yr wythnos hefyd.

Mewn atebiad i'r cwestiwn: 'A i man cyfarfod cymdeithasol yw'r eglwys bellach i lawer iawn o bobl yn hytrach na phwerdy ysbrydol?', y farn gyffredinol oedd bod yr agweddau hyn yn mynd law yn llaw â'i gilydd. Yn ôl un o'r panelwyr fodd bynnag, petai'r capeli yn bwerdai ysbrydol, yna fe fyddent yn llawn.

Amhosibl yw cyfleu holl amrywiaeth a chyfoeth yr atebion a gaed gan y bobl ifainc hyn. Rhoesant ddigon o ddeunydd inni gnoi cil arno. Hyfryd iawn oedd bod yn eu cwmni ac ni allwn ond diolch yn fawr i bawb a gymerodd ran. Gwerthfawr iawn fyddai medru trefnu cyfarfod tebyg yn y dyfodol.

**Gilbert a Rhian Ruddock**

## Cymdeithas Gwragedd Ebeneser

Daeth nifer sylweddol o wragedd Ebeneser at ei gilydd ddechrau Tachwedd i wrando ar W J Jones yn hel atgofion am ei lencyndod yng nghefn gwlad Ceredigion.

# YSGOL GLANTAF

## Nia Ben Aur

'Cyfaredd cof yw hiraeth' - un o linellau enwocaf awdl T. Gwynn Jones, 'Tir na n-Og', a llinell fydd yn aros yng nghof pawb a fu'n gwylio drama-gerdd Glantaf yn ddiweddar. Seiliwyd y ddrama-gerdd ar awdl T. Gwynn Jones a llwyfanwyd y cynhyrchiad gwreiddiol yn Eisteddfod Genedlaethol Caerfyrddin yn 1974. Comisiynwyd Mrs Nia Hall Williams, wyres T. Gwynn Jones, i gynllunio sgript a chymeriadau newydd ar gyfer cynhyrchiad Glantaf a chyfansoddwyd chwe chân newydd sbon gan Miss Delyth Medi Jones.

Chwaraewyd rhannau'r prif gymeriadau gan Llinos Lee, Rhys Morgan, Meilyr Dafydd, Carys John, Kathryn Davies, Trystan Francis, Bethan Lewis, Ruth Evans, Mari Osborne, Owain Wilkins, Tomos Guy a Rhys Jones. Roedd tua deugain disgybl arall yn chwarae rhannau llai ac yn canu a dawnsio yn y corws, heb anghofio cyfeiliant y band.

Cynhyrchwyd y sioe gan Miss Delyth Medi Jones. Mrs Elspeth Hughes oedd yn gyfrifol am y coreograffeg a Mr Guy oedd y cyfarwyddwr cerdd. Roedd y sgript dan ofal Mrs Nerys Morris, Mr Wyn Jones a Mrs Carys Burston. Mr Gwyn Roberts fu'n cynllunio'r set a Mrs Morse oedd yn gyfrifol am y gwisgoedd. Mae llwyfannu cynhyrchiad fel hwn wrth gwrs yn galw am sawl arbenigedd wrth feddwl am wisgoedd, set, llwyfan, sain, golau, cyllid, colur ac yn y blaen, a chafwyd cymorth amhrisiadwy nifer o athrawon yn y gwahanol feysydd hyn.

Cawsom ein cyflyru gan sioeau cerdd y blynyddoedd diwethaf i ddisgwyl y safon uchaf ac eleni eto ni'n siomwyd. Roedd asbri lliw, bywiogrwydd a hiwmor y cynhyrchiad yn wledd i'r llygaid a'r glust. Llongyfarchiadau mawr i'r plant a'r athrawon.


Rhan o gast 'Nia Ben Aur'


Nia Ben Aur (Llinos Lee), Angharad (Ruth Evans) a Llinos (Mari Osborne)


'Gang' Sharon - Kathryn Davies, Rhiannon Michael, Becca Murphy, Catrin Mears.



## Cyfnewid rhwng y Normaniaid a'r Cymry

Bu'r cyfnewid cyntaf rhwng disgyblion o Gymru a disgyblion o Fecamp, Normandie saith mlynedd yn ôl. Ers hynny mae'r cyfnewid wedi ehangu o ysgol Stanwell, Penarth yn unig i ysgolion Cantonian, Esgob Llandaf a Glantaf hefyd. Mae'r cyfnewid er budd ieithyddol yn bennaf, ond hefyd yn cynnig profiad o ffordd wahanol o fyw.

Rhwng yr unfed ar ddeg a'r chweched ar hugain o fis Hydref, croesawyd yr 21ain disgybl o Gymru gan deuluoedd yn Fecamp a thu allan. Yn ogystal â dod yn rhan o fywyd teuluol newydd, a mynd ar deithiau i lefydd unrhyw le rhwng Paris a'r 'Cote Fleurie', profodd y disgyblion fodd newydd o fywyd proffesiynol. Cafodd nifer o'r merched, yn arbennig, brofiadau gwaith llwyddiannus mewn ysgolion cynradd a meithrinfaoedd. Agorodd busnesau lleol eu drysau hefyd i'r disgyblion ifanc, gan gynnwys bwytai, pobydd a llyfrgell.

Ar y nos Fercher olaf, trefnwyd noson pan gafodd pob un o'r disgyblion o Gymru ddiolch i'r teuluoedd a'r busnesau. Derbyniodd pob un dystysgrif profiad gwaith, yn ogystal â lluniaeth a drefnwyd gan ddisgyblion yr ysgol Ffrengig.

Bydd rhan ola'r cyfnewid yn digwydd ym mis Chwefror '98 pan ddaw'r Ffrancwyr draw i Gymru i wneud eu profiad gwaith.

*Llun* : Y Cymry a'r Ffrancod yn Rouen.

# EIN HYSGOLION CYNRADD CYMRAEG

**dan ofal B.D. Harries**

## YSGOL BRO EIRWG

### Twrnament Pêl-droed yr Urdd

Ddydd Llun, 10 Tachwedd, roedd twrnament pêl-droed 5 bob ochr yr Urdd. Roedd llawer o dimau yno o Dde Morgannwg, timau Cymraeg a Saesneg. Ein gêm gyntaf ni oedd yn erbyn Iolo Morganwg. Y sgôr oedd 7-1 i ni! Ar ôl y dechreuad yna roeddwn i yn meddwl y bydden ni'n ennill. Roedd yr ail gêm yn haws fyth achos doeddwn i ddim wedi gadael gôl i mewn, felly y sgôr oedd 7-0 i ni! Roedd fy ngobeithion yn uchel. Roedden ni drwodd i'r rownd go-gyn-derfynol. Roedd yn gêm dda ond yn yr eiliadau olaf fe sgoriodd Llanisien. Ond daeth newyddion da. Oherwydd ein bod wedi sgorio cymaint - 14 gôl - roedden ni yn y rownd gyn-derfynol yn erbyn Marlborough, ond yn yr eiliad olaf eto, sgorion nhw! Bro Eirwg oedd yr unig dîm Cymraeg i gyrraedd cyn belled.

**Rhys Jones (Bl. 6)**

### Ysgol Bro Eirwg ar y We!

Mae'n bosib gweld awyrlun o'n hysgol, darllen Adroddiad y Llywodraethwyr, neu gymeryd cip ar ein cylchlythyr. Gallwch hyd yn oed fynd ar daith o gwmpas yr ysgol a gweld rhai o'r plant a'u hathrawon yn eu dosbarthiadau - dim ond i chi wasgu süydd (*buzzer*) y drws er mwyn sicrhau mynediad!

Na, nid oes rhaid teithio i Dredelerch - mae'r holl brofiadau uchod ar gael i chi, ac i blant ben draw'r byd, ar ein tudalen cartref ar y We. Diolchwn yn fawr iawn i Mr Richard Wenner a Mr Andrew Thomas am sicrhau'r gwasanaeth hwn i'r ysgol. Yn y dyfodol rydym yn gobeithio rhoi mwy o luniau, ac i'r plant ychwanegu peth o'u gwaith cywaith. Oeddech chi'n gwybod, er enghraifft, nad oes gwybodaeth ar gael ar y We am hanes y diwydiant glo yn Ne Cymru? Cred plant Blwyddyn 5 y gallant newid hyn!

Cyfeiriad ein tudalen cartref yw: schoolsite.edex.net.uk/128/ Hoffai'r plant glywed oddi wrthych! Gallwch anfon e-bost atynt yn: ysgol_bro_eirwg_edu@msn.com



## CYSTADLEUAETH 'HEDDWCH' CAERDYDD A'R FRO 1997

Ym Mlwyddyn 3 gofynnodd Mrs Jones, ein hathrawes, i bawb ysgrifennu cerdd. Y teitl oedd 'Chi a Fi'. Penderfynais ysgrifennu am y ffyrdd gwahanol mae pobl yn y byd yn byw, fel y mae rhai yn gyfoethog a rhai yn dlawd, rhai yn mynd mewn car a rhai yn cerdded milltiroedd. Ond dwedais fod pawb yn byw yn yr un byd. Doeddwn i ddim yn gwybod mai cystadleuaeth oedd hi.

Un diwrnod daeth Mr Evans, y prifathro i mewn i'r dosbarth a dywedodd fy mod wedi ennill. Doeddwn i ddim yn gwybod am beth roedd e'n siarad. Y diwrnod nesaf gofynnodd mam i Mr Evans beth roeddwn wedi ennill a dywedodd Mr Evans 'Chi a Fi'. Nes ymlaen rhoddodd Mr Evans wahoddiad oddi wrth y Maer i fi a Branwen fynd i Neuadd y Sir. Arhosom am amser hir achos roedd y Maer yn hwyr. O'r diwedd daeth y Maer. Roedd rhaid siglo dwylo â'r Maer a rhoddodd ef amlen gyda thystysgrif, copi o'r farddoniaeth a thocyn llyfrau am £15.00. Cymerwyd llun ohonom a chymerodd dad lun ohonof i ac un o Branwen.

Ar ôl hynny cawsom fwyd a diod - cefais i sudd oren a chafodd mam a dad win. Roedd gwaith pawb oedd wedi ennill mewn arddangosfa yn Neuadd y Sir.

**Lowri Jenkins (Bl.4)**

### CHI A FI

Rydych chi yn dlawd. Rydw i yn gyfoethog.
Rydych chi yn gweithio. Rydw i yn chwarae.
Rydych chi yn cerdded milltiroedd. Rydw i yn mynd mewn car.
Rydych chi yn tyfu bwyd. Rydw i yn prynu bwyd.
Rydych chi yn gwisgo dillad brwnt. Rydw i yn gwisgo dillad glân.
Ond rydyn ni i gyd yn byw yn yr un byd.

*Lowri Jenkins (Bl.4), cyntaf yn y gystadleuaeth i rai o dan 8 oed yng Ngŵyl Heddwch Caerdydd.*

### CHI A FI

Mae pobol yn llai ffodus na ni
Mae pobol yn byw mewn tai o wellt
Mae pobol yn byw heb fwyd na diod,
Mae pobol yn cerdded ar faw
Mae pobol yn ymolchi mewn dŵr brwnt.

Mae pobol yn gyfoethog
Mae pobol yn byw mewn tai o frics
Mae pobol yn byw ar fwyd a diod
Mae pobol yn cerdded ar goncrit
Mae pobol yn ymolchi mewn dŵr glân.


Ond pwy sydd yn poeni?
Mae bywydau pobol eraill
yn wahanol i'n bywydau ni.

*Branwen Williams (Bl.4), trydydd yn y gystadleuaeth i rai o dan 8 oed yng Ngŵyl Heddwch Caerdydd.*

Dyma lun o Harri Eirwg, cymeriad hoffus Ysgol Bro Eirwg. Fe ofynnwyd i blant yr ysgol feddwl am enw iddo y llynedd, mewn cystadleuaeth. Fe ddaeth nifer fawr o enwau atom, ond penderfynwyd mai Harri Eirwg oedd yr enillydd, oherwydd cysylltiadau'r môr leidr enwog, Syr Harri Morgan ag ardal Llanrhymni.

# NEWYDDION YR URDD

# Gweithgareddau



## Trip yr Urdd i 'Aston Villa'

Ddydd Sadwrn, 1 Tachwedd, trefnwyd trip gan yr Urdd yng Nghaerdydd ynghyd â'r Urdd yng Ngwent i Birmingham i weld Aston Villa yn chwarae yn erbyn Chelsea. Roedd y bws 'double decker' yn llawn o ddisgyblion blynyddoedd 5, 6 a 7 o ysgolion Y Wern, Treganna, Pen-y-garth, Bro Eirwg, Glantaf, Pencae ac Ysgolion Ifor Bach, Ystrad Mynach, Gilfach Fargoed a Chaerffili - dros 70 i gyd.

Cafwyd diwrnod bythgofiadwy a'r cyfle i weld 'sêr' pêl-droed megis Mark Hughes, Zola, Southgate a Yorke yn dangos eu doniau.








## Cystadlaethau Pêl-droed 5 bob ochr, Pêl-rwyd a Nofio'r Urdd, Caerdydd a'r Fro

Cynhaliwyd y cystadlaethau blynyddol yn ystod mis Tachwedd. Cafwyd ymateb gwych gyda llu o ysgolion yn cystadlu - mwy o dimau nag erioed yn cymeryd rhan! Enillwyd y Pêl-droed gan ysgol Llanisien Fach, Rhiwbina, y Pêl-rwyd gan ysgol Marlborough ac aeth y darian Nofio i Ysgol St. Joseff. Bydd yr ysgolion hyn nawr yn mynd ymlaen i Aberystwyth i gynrychioli'r Sir yn y cystadlaethau Cenedlaethol.

Hoffai'r Urdd ddiolch o galon i'r ysgolion canlynol am gefnogi'r weithgaredd yma: Iolo Morganwg, St Curig, Pen-y-garth, Treganna, Coed-y-gof, Melin Gruffydd, Pencae, Y Wern, Bro Eirwg, Llanisien Fach, Marlborough, Herbert Thompson, St. Andrews, Fairfield, Eglwys Wen, Allensbank, St. Joseff, St. Ffransis, All Saints ac Eglwys Newydd.



# Gwasanaeth Carolau'r Urdd

Dydd Mercher, 17 Rhagfyr
Eglwys Dewi Sant,
St Andrew's Crescent, Caerdydd
am 10.30am
Dan arweiniad Criw
'*UNED 5*' S4C

**CROESO CYNNES I BAWB**



# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies




## GOLFF



Cafwyd blwyddyn lwyddiannus arall gan Gymdeithas Golff y Ddinas. Cymdeithas yw hon a ffurfiwyd gan Ceri Preece a Dafydd Hampson-Jones ar gyfer golffwyr Cymraeg eu hiaith gan gynnwys dysgwyr. Mae'r Gymdeithas yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn.

Cystadleuaeth am Dlws Hugh James a chwaraeir yn y Gwanwyn. Yn ystod canol haf, ceir cystadleuaeth Golff y Cyfnos a drefnir gan Wyn Mears; ac yn yr hydref, chwaraeir am Dlws Celtic Henderson Crosthwaite. Eleni enillwyd Tlws y Gwanwyn yng nghlwb Casnewydd (Y Tŷ Du) gan Dafydd Hampson-Jones. Enillwyd Golff y Cyfnos gan Rhodri Jones (brawd Derwyn Jones, nid Rhodri cwmni dawns Caerdydd), ac enillwyd Tlws yr Hydref ar gwrs Llaneirwg gan David Cartwright.

Yn ôl ein harfer yn dilyn swper cystadleuaeth yr Hydref, yr ydym wedi penderfynu ar ymweliadau y flwyddyn nesaf, gan gofio fod y Gymdeithas yn chwarae ar gwrs newydd bob tro. Yr ydym yn gobeithio osgoi ail-ymweld â chlwb y chwaraewyd ynddo eisoes hyd ein dengmlwyddiant yn y flwyddyn 2001.


Bydd 1988 yn 'Flwyddyn y Cestyll' gan ein bod yn bwriadu chwarae ar gyrsiau Castell-nedd yn y gwanwyn, Castell Morlais yn yr haf a Chastell Gwenfô yn yr hydref.

Yn ogystal, ar wahoddiad *Y Dinesydd*, fe fydd Cystadleuaeth Gorfforaethol, er mwyn codi arian ar gyfer *Y Dinesydd*, a hithau yn dathlu pum mlynedd ar hugain yn ystod 1998. **Bydd y Diwrnod Corfforaethol ar gwrs yr Eglwys Newydd ddydd Iau, 2 Gorffennaf, ac os oes unrhyw un â diddordeb mewn cael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Ceri Preece d/o Hugh James, Tŷ Arlbee, Heol y Brodyr Llwydion, Caerdydd CF1 4QB. Rhif ffôn: 224871, Ffacs: 388222.**

Erbyn hyn, mae dros hanner cant o wahanol olffwyr wedi chwarae mewn un neu fwy o gystadlaethau'r Gymdeithas. Mae croeso i aelodau newydd bob amser, felly os ydych yn chwarae golff neu newydd ddechrau, mynnwch le ar restr bostio y Gymdeithas er mwyn i chi gael gwybodaeth am bob cystadleuaeth.

## RYGBI

Oni ddysgasom ddim arall dylem fod wedi dysgu hyn: nid yw ein blaenwyr yn ddigon cryf i chwarae gwledydd gorau'r byd. Profwyd hyn yn Wembli Sadwrn olaf Tachwedd; er gwaetha'r holl oriau a dreulir yn yr oes broffesiynol yn ymarfer â charfanau'r wlad a'u clybiau, mae hi'n gwbl amlwg nad ydynt yn yr un byd â'r Crysau Duon a blaenwyr y ddwy wlad arall yn Hemisffer y De. Clywais i Gyfarwyddwr Clwb Pen-y-bont, John Phillips, ddweud wrth fwrw rhagolwg ar yr ornest, mai un o wendidau'r wlad yw bod llawer o'i chwaraewyr yn gweithio'n ddigon caled ar wella'u cryfderau, gan esgeuluso'u gwendidau. Cyngor arall o Seland Newydd nas ystyrir: darllenais wedyn y cyfweliad rhwng y gohebydd a John Phillips, Cyfarwyddwr Pen-y-bont, yn y *Western Mail*, a chael hyd i sylw arall a drawodd y gwirionedd. Yr oedd ganddo amheuaeth ynglŷn â'r blaenwyr a chwaraeai yn Wembli - yr wyth ohonynt a'r pum blaenwr tyn yn enwedig; ni chredai **y gallent gyfrannu ymhob agwedd o'r chwarae**. Hen dro na ofynnwyd iddo ymhelaethu pam na allent, onid e? Ond gwyddom ni'r ateb. Rhaid amau'n gryf iawn a ydyw'r pwyslais ar wytnwch a chryfder yn cael y sylw a ddylai yn y cyfnodau ymarfer - a ydyw'r blaenwyr yn gweithio'n ddigon caled ar eu pennau eu hunain i sicrhau y gallant gystadlu â'r Crysau Duon? Mae hi'n rhaid nad ydynt. Byddaf fi'n hoelio fy sylw yn y gornestau rhwng y prif glybiau y byddaf yn eu gwylio o hyn allan, er mwyn gweld faint yn union o waith y bydd y blaenwyr tyn yn ei wneud, gan gofio beth a gyfrannodd Robin Brooke yn Wembli. Waeth inni beidio â chlodfori gallu ein holwyr - nid ydyw eu holl ddawn yn werth dim hyd nes inni sicrhau y gall ein blaenwyr drafod y bêl cystal â Brooke, a dangos eu bod nid yn unig yn ddigon heini ond yn ddigon cryf hefyd. Nid yw hyn, ysywaeth, yn debyg o ddigwydd; rhaid cael arweiniad gan rywun ynghyd â llawer, llawer mwy o benderfyniad gan y chwaraewyr eu hunain.



Yr wyf fi'n amau'n fawr iawn ar hyn o bryd a allwn ni ennill yn Nulyn ym mis Mawrth, heb sôn am ennill y Goron Driphlyg, ond, beth bynnag, gornestau'r Trydydd Byd yw'r rhain. Gwell peidio â meddwl am Gwpan y Byd.

### Arthur Morris Jones a Siân Phillips

Ddydd Llun, 13 Hydref, cyfarfu'r actores fyd-enwog Siân Phillips â hen gyfaill iddi - Arthur Morris Jones, brodor o Rosgadfan sydd bellach wedi ymgartrefu yng Ngwenfô, Caerdydd. Mae Siân yn un o lywodraethwyr Coleg Cerdd a Drama Cymru ac roedd yng Nghaerdydd i dderbyn rhodd o £25k gan Gymdeithas y Theatr Newydd, Caerdydd er mwyn sefydlu dwy ysgoloriaeth ddrama yn y Coleg. Bu Arthur Morris Jones yn ysgrifennydd i'r gymdeithas honno ers ei sefydlu ym 1965 - ac fel teyrnged i'w wasanaeth ffyddlon a diflino, mynnodd aelodau'r gymdeithas enwi un o'r ysgoloriaethau ar ei ôl.

Gellir olrhain y cysylltiad rhwng Arthur Morris Jones a Siân Phillips yn ôl i'r cyfnod pan oeddynt ill dau yn fyfyrwyr yng Nghaerdydd. Ar y pryd cyfieithodd Arthur ddrama JB Priestly, 'An Inspector Calls', i'r Gymraeg. Pan aeth y cynhyrchiad ar daith drwy Gymru, Siân Phillips a gymerodd ran y wraig.

Bu Arthur Morris Jones yn gweithio yn Athrofa Addysg Uwch Caerdydd am gyfnod lle bu'n ddarlithydd ar bynciau celfyddydol a chymdeithasol. Ymhlith ei fyfyrwyr yno yr oedd rhai o hoelion wyth Adran Newyddion y BBC heddiw - John Humphreys, Michael Burke a Sue Lawley. Gweithiodd yn ddyfal dros weithgareddau celfyddydol cyfrwng Cymraeg a bu'n allweddol yn sefydlu Cwmni Theatr yr Ymylon. Bu'n allweddol hefyd yn sefydlu Canolfan Gelfyddydol Llanofer yng Nghaerdydd.



# Dysgwyr y Ddinas

dan ofal Gareth Kiff

## TELE TUBBIES A MERCHED SBEISLYD

Mae'r Nadolig bron â bod wedi cyrraedd unwaith eto! Beth ydych chi'n gobeithio ei gael ar y diwrnod mawr? Llawer o lyfrau Cymraeg neu fideos y Telytubbies? Yn bersonol dw i'n gobeithio cael cryno-ddisg newydd y 'Merched Sbeislyd'. Ond cofiwch fynd yn ôl i'ch dosbarthiadau Cymraeg yn y flwyddyn newydd! Dyna'r ffordd orau i 'sbeisio i fyny dy fywyd' yn '98!

## CWRS WLPAN NEWYDD

Bydd cwrs Wlpan newydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn dechrau ym mis Ionawr. Bydd dosbarthiadau ddwywaith yr wythnos, nos Fawrth a nos Iau. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Robat ap Tomos 01222 486469 neu 01222 253868.

## STORI GUTO NYTH BRÂN

Ar ben y mynydd rhwng Rhondda Fach ac Ynys-y-bwl ym Morgannwg Ganol, mae hen eglwys Llanwynno. Yn wal yr eglwys mae carreg fedd rhywun o'r enw Gruffudd Morgan o fferm Nyth Brân yn yr ardal. Mae llawer o storïau am Gruffudd, neu Guto Nyth Brân, oedd yn rhedwr enwog yn ei ddydd. Yn ôl un stori, rhedodd ras yn erbyn Sais o'r enw Prince, rhwng Casnewydd a Bedwas yng Ngwent. Ar y dechrau, Prince oedd yn ennill, ond pasiodd Guto e, a Guto oedd y cynta i gyrraedd Bedwas. Roedd llawer o'i deulu a'i ffrindiau wedi mentro arian ar Guto a phan welon nhw fe'n dod, ro'n nhw'n hapus iawn. Roedd un wraig, Sian y Siôp, wedi mentro popeth - y siôp a'r cwbl. Pan welodd hi fod Guto yn mynd i ennill, rhedodd hi allan a'i fwrw fe ar ei gefn. Roedd hyn yn ormod i Guto. Croesodd e'r llinell i ennill y ras a chwympo'n farw.

## CLWB HAMDDEN CYD

Ers y rhifyn diwethaf mae'r grŵp yma wedi bod ar daith gerdded yn ardal Carreg Cennen yng Ngorllewin Cymru. Cafodd pawb hwyl ac roedd pawb wedi cyrraedd yn ôl yn ddiogel! Hefyd mae'r grŵp wedi trefnu nifer o gemau sboncen yn ddiweddar. Os hoffech chi wybod mwy am weithgareddau'r grŵp ffoniwch fi ar 01222 486469 neu Dafydd Bridle ar 01222 736600.

## DYDDIADUR DIGWYDDIADAU - CAERDYDD A'R FRO

| | |
|---|---|
| **Pob yn ail ddydd Mawrth** 12.30 - 2.00pm | Clwb Coffi y Fro, Coleg Cymunedol y Bont-faen. Ffoniwch Christine Franks 01222 513046. |
| **Pob dydd Mercher** 12.00 - 2.00pm | Clwb Coffi, Clwb Ifor Bach, Stryd Womanby, Caerdydd Ffoniwch Christine Franks 01222 513046. |
| **Pob nos Fercher** 9.00pm ymlaen | Tafarn y Tavistock, Stryd Bedford, Y Rhath, Caerdydd. Gareth Kiff 01222 486469 |
| **Pob nos Iau** 9.00pm ymlaen | Gwesty Parc y Rhath (*Roath Park Hotel*), Heol y Plwca (*City Road*), Caerdydd |
| **Pob bore Gwener** 9.45 - 11.45am | Clwb Coffi y Barri, Canolfan Palmerston. Ffoniwch Christine Franks 01222 513046. |
| **Pob dydd Gwener** 1.00pm - 3.00pm | Clwb Coffi Treganna, Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Caerdydd. Ffoniwch Christine Franks 01222 513046. |
| **Pob bore Sadwrn** 11.00am - 2.00pm | Clwb Sadwrn ACEN: cyfle gwych i ymarfer eich Cymraeg a chwrdd â ffrindiau newydd. Ffoniwch Rhun ar 01222 665455 am fanylion. |

## STAFF NEWYDD SAIN FFAGAN

Yn 1998 bydd Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, yn dathlu hanner canmlwyddiant ei sefydlu, ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, daethpwyd i'w chydnabod yn un o amgueddfeydd awyr-agored pwysicaf Ewrop.

Yn ddiweddar cafwyd nifer o ddatblygiadau eithriadol o ddiddorol a phwysig yn yr Amgueddfa, megis cynnydd mewn digwyddiadau a dathliadau o arferion a gwyliau'r flwyddyn, a cheir gwybodaeth am y rhain mewn taflen a gyhoeddir gan yr Amgueddfa ddwywaith y flwyddyn, neu drwy ffonio (01222) 573500.

Yn ddiweddar hefyd penodwyd nifer o Gymry Cymraeg ifainc i swyddi curadurol yn Adran Bywyd Gwerin. Y mae'r swyddi hyn yn allweddol er mwyn parhau traddodiad cyfoethog yr Amgueddfa o ymchwil i hanes a diwylliant Cymru ac i gyflwyno peth o amrywiaeth mawr casgliadau'r Amgueddfa, drwy ddulliau megis darlithoedd, cyhoeddiadau ac arddangosfeydd. Dyma ychydig wybodaeth, felly, am staff curadurol newydd a benodwyd lai na dwy flynedd yn ôl, a phedwar ohonynt yn 1997:

**Gareth Beech.** Mab fferm o Lanarmon-yn-Iâl, Sir Ddinbych. Wedi graddio mewn dylunio, bu'n athro ysgol am gyfnod byr. Ei faes penodol yn yr Amgueddfa Werin yw'r economi wledig, gyda sylw arbennig i amaethyddiaeth a chrefftau.

**Sioned Hughes.** Magwyd yng Nghrymych, Sir Benfro. Wedi graddio mewn hanes, bu'n gweithio am gyfnod byr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Yna gwnaeth gwrs pellach mewn astudiaethau orielau celf ac amgueddfeydd. Masnach ac adeiladau yw ei phynciau arbennig yn yr Amgueddfa Werin.

**Emma Lile.** Genedigol o Lanilar, ger Aberystwyth. Graddiodd mewn cerddoriaeth a chwaraeon. Bu'n ymchwilio i hanes athletau yng Nghymru a dilynodd y cwrs MA mewn Astudiaethau Gwerin yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Caerdydd. Ei maes penodol hi yn yr Amgueddfa yw canu a dawnsio gwerin, arferion gwerin a chwaraeon.

**Meinwen Ruddock.** Ganed yng Nghaerdydd yn ferch i Rhian a Gilbert Ruddock. Graddiodd mewn Cymraeg ym Mhrifysgol Cymru Abertawe a bu'n ymchwilio i iaith plant. Hi sy'n gyfrifol am ddogfennu defnyddiau Archif Hanes Llafar yr Amgueddfa (yn dapiau sain, ffilmiau a fideo), a chynorthwyo ymchwilwyr sy'n defnyddio'r Archif.

**Mared Sutherland.** Yn enedigol o Ddeiniolen, Sir Gaernarfon, graddiodd mewn Cymraeg ac yna dilyn y cwrs MA mewn Astudiaethau Gwerin yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru Caerdydd. Ei maes arbennig yn yr Amgueddfa yw bywyd cartref (bwydydd, golchi ac ati).

**Sioned Williams.** Merch o Lanbryn-mair, Maldwyn. Wedi graddio mewn Cymraeg a Hanes Cymru ym Mhrifysgol Cymru Caerdydd, bu'n ymchwilio i agweddau ar ddiwylliant materol bonedd Dinbych a Fflint, 1540-1640. Yn yr Amgueddfa Werin ei maes arbenigol yw dodrefn a chlociau.

**Robin Gwyndaf**
Amgueddfa Werin Cymru

AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU

# CYTIAU CHWAIN A PHALASAU BREUDDWYDION

**gan Beth Thomas**

**£5.95**

Mae'r casgliad dwyieithog hwn yn dathlu hanes canrif o ymweld â'r sinema yng Nghymru trwy gyfrwng atgofion y cynulleidfaoedd eu hunain. Dyma gyfle i chi ailymweld â Majestic, Rialto a Plaza eich plentyndod, neu ddod i adnabod y 'Cosi Sinema' am y tro cyntaf!

Ar gael o siopau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru yn:
Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Caerdydd 01222 573341
Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan 01222 573341
Amgueddfa Lechi Llanberis 01286 870630
neu gan Wasg Prifysgol Cymru 01222 231919

**J. A. HUGHES gyda REES WOOD a TERRY**

JAH

A ydych chi wedi cael **damwain?**

Efallai y gallwch hawlio **iawndal?**

Mae'r cyfweliad cyntaf **yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â Rhys Ll. Thomas

01222 - 666222

SEINIAU'R NADOLIG

## casetiau a cd

- **GWERINOS** 'SEILAM'
- **TECWYN IFAN** 'SARITA'
- **CÔR MEIBION CAERNARFON**
- **IONA AC ANDY** 'CERDDED DROS Y MYNYDD'
- **TRIAWD CAERAN** 'NEWID BYD'
- **JOHN AC ALUN** 'Y DOLIG GORAU UN'
- **THEATR MEIRION** 'ER MWYN YFORY'
- **EDEN** 'PAID Â BOD OFN'
- **SIÂN JAMES** 'DI-GWSG'
- **CANTORION GLAN ALUN** 'GWARCHOD Y FFIN'
- **PAUL WILLIAMS** 'GWYRTH FY MYWYD I'
- **MEIC STEVENS** ALBYM NEWYDD SBON
- **CASGLIAD CRAI TECNO 2**
- **STRYMDINGARS** 'STRYM GYNTA'



sain

CANOLFAN SAIN • LLANDWROG • CAERNARFON • GWYNEDD • LL54 5TG
FFÔN 01286 831.111 FFACS 01286 831.497

TELEDU apollo

Mae Teledu Apollo yn chwilio am **fabi** fydd yn 5-6 wythnos oed erbyn diwedd Ionawr i gymryd rhan mewn drama deledu i S4C. Dim mwy na 2 ddiwrnod o waith ffilmio bob mis.

Am fanylion pellach, cysylltwch â **Teledu Apollo ar (01222) 251811**

CBAC WJEC

SIOP LYFRAU

# SIOP LYFRAU CBAC

## ANRHEGION NADOLIG

- Llyfrau darllen i blant a phobl ifanc
- Posteri lliwgar
- Llyfrau gosod
- Arweinlyfrau
- Adnoddau i ddysgwyr
- Cyn-bapurau TGAU, Safon Uwch ac Uwch Atodol

**Ar agor: Llun - Gwener 9.00am - 5.00pm**

**Ar agor: Dydd Iau 9.00am - 6.30pm ar gyfer siopa Nadolig**

*245 Rhodfa'r Gorllewin, Llandaf, Caerdydd CF5 2YX*
*(gyferbyn ag Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd)*

*Ffôn :*
*(01222) 265112*
*(01222) 265063*
*Ffacs :*
*(01222) 575987*

GWASG BRYNTIRION

## Taith y Pererin

**I'r Teulu—addasiad gan Jean Watson**
**trosiad gan Dafydd Ifans**

Addasiad o glasur John Bunyan i blant ac oedolion. Lluniau lliw a phensil gan Vic Mitchell. Ychwanegwyd brasluniau o'r prif gymeriadau.
Clawr caled. 128tt. **£9.99**

## Ar Lwybrau'r Mynydd

**Storïau o fro Eryri**
**Mike Perrin, cyfieithiad gan Llio Adams**

Cyfrol am gerdded a dringo yn Eryri gan ddringwr proffesiadol a sylfaenydd Canolfan Fynydda Gristnogol, Tremadog, yn cyfleu gwersi Cristnogol seiliedig ar brofiad personol o'r Ysgrythur. Llyfr glân a destlus yn cynnwys 17 o luniau du a gwyn un tudalen gan yr awdur, a mapiau. Clawr meddal. Fformat bwrdd coffi. 96tt. **£6.99**

## Cyfeiriadur Emynau

**Dafydd Job**

Rhestr o holl linellau emynau *Llyfr Emynau* y Methodistiaid wedi eu gosod yn nhrefn yr wyddor. Llyfr unigryw a chymorth amhrisiadwy.
Clawr sglein. 60tt. **£4.25**

## Crist a Chenedlaetholdeb

**gan Bobi Jones**

Gyda datganoli bellach yn ffaith mae'r llyfr hwn gan un o'n prif awduron Cymraeg yn llyfr amserol a phwysig. Dyma ddeunydd i ysgogi trafodaeth a chynnig arweiniad i Gymry ar ddechrau cyfnod newydd gwleidyddol.
Clawr sglein. 135tt. **£3.50**

Bargen!!

*Ar gael mewn Siopau Llyfrau Cymraeg a'r Siop Llyfrau Cristnogol, 7 Arcêd Wyndham, Caerdydd.*
**Bryntirion, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4DX**
**Tel: 01656-655886; Ffacs: 01656-656095**



## Hen a Newydd

*Old & New*

*Hynafiaethau, Bric-a-brac, Tlysau, Llyfrau, Canhwyllau, Cardiau a.y.y.b.*

**Rydym yn fodlon prynu pethau casgliadwy**

## Dewch i Chwilota!

**Arlunwaith a Gwydrau Lliw gan**
*Gareth Morgan* **sy'n derbyn comisiynau**

Selwyn a Beryl Williams
14A Heol Beulah, Rhiwbina
(Drws nesaf i'r siop flodau!)
☎ : 01222 694121

# NADOLIG YNG NGHYMRU

## Geiriadur Saesneg - Cymraeg Yr Academi

£10 cyfan yn rhatach yn TSO Oriel **£30**

## Nadolig Blasus Ena a Christmas With Ena

y ddau wedi eu gostwng o £9.95 i **£7.95** yn unig

## Christmas in Wales

Blodeugerdd Dewi Roberts

rhywbeth at ddant pawb - i lawr o £6.95 i **£5.45**

dim ond yn Y Llyfrfa Oriel.

Prynwch tra bod y stoc yn parhau. Siopwyr personol yn unig. Dim archebion trwy'r post.

The Stationery Office

Oriel, Heol Tŷ'r Brodyr, Caerdydd
Ar agor o 9.00 tan 5.30,
ac yn hwyr ar nosweithiau
Iau ym mis Rhagfyr.